PWYLLGOR CYNLLUNIO
5 HYDREF 2022
RHIF YR EITEM

ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD

ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Rhoi amlinelliad i'r Aelodau o'r newidiadau a awgrymwyd i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Os yw'r Pwyllgor Cynllunio yn cytuno, gweithredu'r fersiwn newydd o'r Cynllun Dirprwyo ar unwaith.

2. CEFNDIR

Y Cynllun Dirprwyo Cynllunio yw'r ddogfen sy'n nodi pa geisiadau cynllunio a phenderfyniadau cysylltiedig eraill y gellir eu gwneud ar lefel swyddog, a pha rai y bydd angen eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad.

Mae hwn yn adendwm i gyfansoddiad y Cyngor sy'n dirprwyo gweithrediad swyddogaethau'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Mae Cynllun Dirprwyo yn ofynnol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y broses ceisiadau cynllunio. Mae pob Cyngor yng Nghymru yn gweithredu Cynllun Dirprwyo fel bod y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu ar lefel Swyddog. Hefyd, mae Cynllun Dirprwyo yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i weithredu'n briodol a sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau cynllunio penodol o fewn y fforwm democrataidd hwnnw.

Mae'r newidiadau a awgrymwyd yn yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

Paragraff (F9)	**Newid**	**Rheswm**
1.3.2	Geiriad wedi'i newid o 'cyhoeddi rhybudd gorfodi yn ymwneud â chynllunio' i 'cyhoeddi rhybudd ffurfiol'	Mae'r geiriad hwn wedi'i newid i sicrhau ei fod yn cwmpasu pob math o rybudd y gall yr ACLl ei gyhoeddi mewn achos o dorri rheolau cynllunio.
1.5, 2.1.9 a 2.1.10	Wedi ychwanegu adrannau newydd am Brosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol (NSIPs) a Datblygiadau o Arwyddocâd	Mae'r adrannau hyn yn disodli adrannau f8 am brosiectau isadeiledd ynni adnewyddadwy mawr a'r Comisiwn Cynllunio Isadeiledd gan nad yw'r corff hwn bellach yn bodoli - ar ôl cael eu disodli gan weithdrefnau'r NSIP a DNS.

	Cenedlaethol (DNS)	
2.1.2	Ychwanegu'r gair 'eglur'	Ychwanegwyd i sicrhau eglurdeb ynglŷn â p'un a yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn gwrthwynebu ynteu yn rhoi sylwadau yn unig.
Dehongliad	Ychwanegwyd adran ychwanegol mewn perthynas â'r term *eglur	Er mwyn bod yn glir ynghylch y newid ym mharagraff 2.1.2

Mae'r cynllun diwygiedig (Fersiwn 9) ynghlwm wrth yr adroddiad hwn i Aelodau (**Atodiad A**). Mae copi o'r cynllun presennol (Fersiwn 8) hefyd ynghlwm er mwyn cyfeirio ato (**Atodiad B**).

Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Cynllunio a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio cyn gwneud y newidiadau a awgrymwyd.

3. ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn mabwysiadu'r newidiadau a awgrymwyd i'r Cynllun Dirprwyo.